Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

## St John's College
## Heol Casnewydd
## College Green
## Pentref Llaneirwg
## Caerdydd
## CF3 5YX

## Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2018

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn â St John's College

Ysgol ddydd annibynnol sy'n addysgu bechgyn a merched rhwng 3 ac 18 oed yw St John's College. Ceir ethos Catholig yn yr ysgol. Mae wedi'i lleoli ym Mhentref Llaneirwg ar ymyl ddwyreiniol Caerdydd.

Mae St John's College wedi'i drefnu yn bedair adran. Mae adran y babanod yn darparu ar gyfer disgyblion meithrin, derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2, mae'r adran iau ar gyfer disgyblion ym Mlynyddoedd 3-6 ac mae'r ysgol hŷn ar gyfer disgyblion ym Mlynyddoedd 7-11. Ceir chweched dosbarth hefyd ar gyfer disgyblion ym Mlynyddoedd 12 a 13. Ar hyn o bryd, mae 537 o ddisgyblion ar y gofrestr. Ychydig o wahaniaeth sydd yng nghyfanswm nifer y bechgyn a'r merched er bod y cydbwysedd yn amrywio mewn grwpiau blwyddyn ar draws yr ysgol.

Er y daw'r mwyafrif o'r disgyblion o dde Cymru, mae disgyblion o rannau eraill o Ewrop, UDA, y Dwyrain Canol a'r Dwyrain Pell, o Tsieina a Korea yn nodedig, yn mynychu'r ysgol. Daw ychydig o ddisgyblion o deuluoedd Cymraeg eu hiaith. Caiff ychydig iawn o ddisgyblion gymorth i ddysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.

Mae anghenion addysgol arbennig gan ryw 13% o ddisgyblion. Nid yw'n nod gan yr ysgol i wneud disgyblion yn ddwyieithog mewn Cymraeg a Saesneg, ond mae'n darparu cyfleoedd i ddisgyblion astudio Cymraeg fel ail iaith hyd at Safon Uwch.

Mae St John's College yn ysgol annetholus. Yn gyffredinol, gwarentir mynediad i'r ysgol hŷn i ddisgyblion ym Mlwyddyn 6. Mae darpar ddisgyblion yn sefyll profion mynediad Saesneg a mathemateg, ac mae'n ofynnol sefyll prawf gwyddoniaeth hefyd i gael mynediad i Flwyddyn 9.

Prif nod yr ysgol yw "sicrhau bod disgyblion yn datblygu'u potensial llawn ym mhob maes o fywyd yr ysgol. Yn benodol, mae'r ysgol yn annog plant i ddatblygu agwedd garedig a pharchus tuag at ei gilydd." Nod arall gan yr ysgol yw darparu addysg foesol ac ysbrydol gref wedi'i seilio'n gadarn ar egwyddorion Catholig, Cristnogol.

Cafodd y pennaeth ei benodi yn 2017, ac ym Mawrth 2012 y cafodd yr ysgol ei harolygu ddiwethaf.

## Crynodeb

Mae disgyblion yn St John's College yn gwneud cynnydd cryf ac yn cyflawni deilliannau rhagorol mewn arholiadau cyhoeddus ar ddiwedd cyfnod allweddol 4 ac yn y chweched dosbarth.  Ar draws yr ysgol, caiff disgyblion eu hysgogi'n eithriadol o dda ac maent yn dangos agweddau cadarnhaol iawn at eu dysgu.

Mae addysgu ar draws yr ysgol yn dda.  Mae athrawon yn adnabod eu disgyblion yn dda ac yn darparu adborth llafar defnyddiol iddynt yn ystod gwersi.  Mae'r cymorth ychwanegol a ddarperir i ddisgyblion y tu allan i wersi yn cyfrannu'n eithriadol at eu lles a'u safonau uchel.  Mae'r pennaeth newydd wedi rhannu ei weledigaeth strategol glir yn llwyddiannus gyda staff, rhieni a disgyblion.  Mae arweinyddiaeth yr ysgol wedi mynd ati'n gyflym i nodi'u blaenoriaethau allweddol ar gyfer gwella'r ysgol.

Mae'r ysgol yn bodloni holl Reoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Rhagorol** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Rhagorol** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Da** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Rhagorol** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Cydymffurfio â'r safonau ar gyfer cofrestru

Caiff arolygiadau ysgolion annibynnol eu rheoli gan Ddeddf Addysg 2002 a rheoliadau cysylltiedig: Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003. Mae'r rheoliadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i ysgol annibynnol fodloni'r safon briodol yn y meysydd canlynol:

### Ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol

Mae'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion

Mae'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### Lles, iechyd a diogelwch disgyblion

Mae'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### Addasrwydd perchnogion a staff

Mae'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### Adeiladau a llety preswyl mewn ysgolion

Mae'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### Darparu gwybodaeth

Mae'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### Y modd y dylid ymdrin â chwynion

Mae'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

## Argymhellion

A1 Cryfhau cysondeb yn ansawdd hunanarfarniadau adrannol

A2 Ymgorffori prosesau sicrhau ansawdd a defnyddio'r deilliannau i hyrwyddo gwelliant yr ysgol

A3 Rhannu'r arfer orau mewn addysgu i sicrhau bod anghenion yr holl ddisgyblion yn cael eu bodloni

## Beth sy'n digwydd nesaf

Mae Estyn yn cynghori'r perchennog i ddiwygio'i gynllun datblygu presennol i ddangos pa gamau y mae'r ysgol yn bwriadu eu cymryd i ymateb i'r argymhellion. Dylid dosbarthu copïau o'r cynllun hwn hefyd, neu grynodeb ohono, i'r holl rieni/gofalwyr yn yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Rhagorol**

Mae'r safonau a gyflawnir gan ddisgyblion ar draws yr ysgol yn eithriadol o uchel.

Yn yr adran feithrin ac adran y babanod, mae bron pob un o'r disgyblion yn datblygu dealltwriaeth gadarn iawn o gysyniadau a medrau Saesneg a mathemateg. Wrth iddynt symud drwy'r ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cryf o leiaf wrth ddatblygu'r medrau hyn. Yn ogystal, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu dealltwriaeth hynod sicr o wybodaeth bynciol a gallant gymhwyso hon i gyd-destunau newydd yn dda.

Ar draws yr ysgol, mae bron pob disgybl yn ddysgwyr hyderus a huawdl ac maent yn datblygu'u medrau llafar i safon uchel iawn. Yn adran y babanod, mae bron pob un o'r disgyblion yn gwrando'n astud ar gyfraniadau'u ffrindiau ac yn adeiladu ar eu hymatebion. Yn yr adran iau, mae bron pob disgybl yn gwneud defnydd da o eirfa dechnegol briodol, er enghraifft wrth drafod p'un a yw deunyddiau yn anhryloyw, yn dryleu neu'n dryloyw. Gall bron pob un o'r disgyblion hŷn ateb cwestiynau'n feddylgar gan ddefnyddio geirfa eang. Er enghraifft, mae disgyblion mewn hanes Blwyddyn 10 yn rhoi ymatebion llafar estynedig wrth esbonio'u barnau ynghylch 'Pam oedd Hitler eisiau'r Sudetanland'.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn darllen yn uchel yn hyderus a gyda mynegiant. Mae llawer o ddisgyblion yn darllen i gael yr ystyr ac yn dethol gwybodaeth berthnasol yn llwyddiannus, yn ogystal â darllen yn eang er pleser. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn darllen yn rhugl ac yn frwdfrydig, ac mae bron pob un ohonynt yn deall pwysigrwydd datblygu'u medrau darllen. Wrth iddynt symud drwy'r ysgol, mae disgyblion yn darllen ac yn ymateb yn hyderus i ystod o destunau mwyfwy cymhleth.

Gwna'r rhan fwyaf o ddisgyblion gynnydd cryf wrth ddatblygu'u medrau ysgrifennu ar draws adran y babanod a'r adran iau. Erbyn Blwyddyn 6, mae llawer ohonynt yn ysgrifenwyr hyderus sy'n gwneud dewisiadau anturus ac effeithiol iawn o ran geirfa, er enghraifft defnyddio trosiadau a chyflythreniad i ddisgrifio prysurdeb canol dinas. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn yr ysgol hŷn yn ysgrifennu'n gywir ac yn estynedig, gyda synnwyr clir o gynulleidfa a diben. Er enghraifft, mae disgyblion ym Mlwyddyn 7 yn ysgrifennu storïau arswyd gothig gafaelgar. Pan gânt y cyfle, mae disgyblion yn cymhwyso'u medrau llythrennedd yn dda ar draws y cwricwlwm.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd effeithiol wrth ddatblygu'u medrau rhifedd mewn gwersi mathemateg wrth iddynt symud drwy'r ysgol. O oedran cynnar, mae disgyblion yn caffael dealltwriaeth sicr o destunau mathemategol. Er enghraifft, mae'r dosbarth derbyn yn creu graffiau bar syml i ddangos eu hoff flas o uwd. Wrth iddynt symud ymlaen i'r ysgol hŷn, mae disgyblion yn trosglwyddo'n gynyddol y medrau y maent wedi'u dysgu yn eu gwersi mathemateg i ystod eang o gyd-destunau yn effeithiol. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 11 yn defnyddio medrau trin data yn alluog i ymchwilio i amrywiadau amgylcheddol a genetig malwod mewn lleoliadau coedwig a glaswelltir.

Ar draws yr ysgol, mae disgyblion sy'n fwy abl yn dangos lefelau arbennig o gadarn o ddealltwriaeth a chymhwyso cysyniadau. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 6 yn defnyddio geirfa fathemategol dechnegol yn hyderus wrth ddisgrifio nodweddion siapiau 2D. Yn yr ysgol hŷn, mae disgyblion mwyaf abl yn arbennig o fedrus o ran meddwl pethau drwodd drostynt eu hunain, ymresymu ac esbonio'u gwaith. Gwnânt gysylltiadau rhwng testunau yn gyflym, gan ddefnyddio awgrym a dod i gasgliad yn addas.

Mae perfformiad disgyblion ar ddiwedd cyfnod allweddol 4 yn eithriadol o uchel. Dros y tair blynedd diwethaf, fe wnaeth bron pob disgybl gyflawni trothwy lefel 2 (yn gyfwerth â phum gradd A* i C mewn TGAU) a throthwy lefel 2 mewn Saesneg a mathemateg. Roedd perfformiad yn y pynciau craidd yn uwch o lawer na chyfartaleddau cenedlaethol ym mhob un o'r tair blynedd diwethaf. Dros yr un cyfnod, roedd mwyafrif o'r holl lwyddiannau TGAU yn raddau A*/A. Mae cyfran y disgyblion sy'n ennill pump neu fwy o raddau A*/A mewn TGAU yn eithriadol o uchel hefyd. Yn 2017, cyflawnodd y mwyafrif o ddisgyblion y dangosydd hwn, sydd ymhell uwchlaw'r cyfartaleddau ar gyfer ysgolion annibynnol ac ysgolion a gynhelir yng Nghymru.

Am y tair blynedd diwethaf, nid oes unrhyw ddisgybl wedi gadael yr ysgol heb gymhwyster cydnabyddedig. Ar ddiwedd Blwyddyn 11, mae bron pob un o'r disgyblion yn aros mewn addysg amser llawn.

Yn y chweched dosbarth, mae perfformiad disgyblion mewn Safon Uwch dros y tair blynedd diwethaf yn rhagorol. Yn ystod y cyfnod hwn, roedd tua 80% o'r holl raddau Safon Uwch yn raddau A*/ A, ac roedd tua 97% o'r graddau yn raddau A*-B. Yn 2017, llwyddodd 64% o ddisgyblion i ennill graddau A* neu A mewn Safon Uwch. Mae'r deilliannau hyn yn arbennig o gadarn ac ymhell uwchlaw'r cyfartaleddau cenedlaethol. Ar ddiwedd Blwyddyn 13, mae bron pob disgybl yn symud ymlaen i addysg uwch.

## Lles ac agweddau at ddysgu: Rhagorol

Ar draws yr ysgol, caiff y rhan fwyaf o ddisgyblion eu hysgogi'n eithriadol o dda ac maent yn dangos agweddau cadarnhaol iawn at eu dysgu. Maent yn ymgysylltu'n dda mewn gwersi ac yn gwrando'n barchus ar gyfraniadau disgyblion eraill. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos etheg gwaith gref, er enghraifft wrth weithio'n annibynnol yn llyfrgell y chweched dosbarth. Mae llawer o ddisgyblion yn dangos lefelau uchel o chwilfrydedd, maent yn ddysgwyr hyderus a gwydn, ac yn dangos lefelau uchel o annibyniaeth. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 3 yn darllen cyfarwyddiadau ar gyfer gêm strategaeth yn annibynnol ac yn dyfalbarhau i ddyfeisio tacteg i drechu eu hathro.

Mae bron pob disgybl yn hynod foesgar a chroesawgar i ymwelwyr â'r ysgol. Maent yn cynorthwyo'i gilydd yn dda iawn. Er enghraifft, mae disgyblion y chweched dosbarth yn cynorthwyo disgyblion iau yn effeithiol gyda'u darllen. Mae bron yr holl ddisgyblion yn dangos lefelau uchel o barch a charedigrwydd at y rhai o'u hamgylch, ac mae'r rhan fwyaf yn dangos ymddygiad rhagorol yn eu gwersi. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu perthnasoedd gweithio cadarnhaol gyda'u hathrawon.

Mae cyfraniad disgyblion at y côr a’r gerddorfa yn nodwedd ragorol o’r ysgol. Mae cyfraddau cyfranogi yn uchel eithriadol, ac mae bron yr holl ddisgyblion sy’n cyfranogi yn perfformio gydag angerdd, balchder a mwynhad. Gwna hyn gyfraniad cadarnhaol eithriadol at ddatblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion. Hefyd, mae llawer o ddisgyblion yn cyfranogi’n frwdfrydig mewn amrywiaeth eang o weithgareddau corfforol fel pêl-droed, pêl-rwyd a hoci, a dangosant ddealltwriaeth gadarn o sut i gadw eu hunain yn iach trwy wneud ymarfer corff rheolaidd a bwyta deiet cytbwys. Mae llawer o ddisgyblion yn manteisio ar y cyfle i fynychu clybiau fel clybiau gwyddbwyll, ysgrifennu creadigol a thrafod, sy’n helpu datblygu’u medrau personol, cymdeithasol a meddwl yn llwyddiannus iawn.

Ar draws yr ysgol, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo bod yr ysgol yn gofalu amdanynt yn dda iawn, ac o ganlyniad, maent yn teimlo’n ddiogel yn yr ysgol. Mae llawer o ddisgyblion yn hyderus bod yr ysgol yn mynd i’r afael yn effeithiol ag unrhyw bryderon neu ofidiau a all fod ganddynt, ac maent yn gwybod â phwy i siarad os ydynt yn ofidus.

Mae disgyblion â rolau arwain yn cymryd eu cyfrifoldebau o ddifrif ac yn cyflawni’u dyletswyddau yn effeithiol. Mae aelodau etholedig y cynghorau ysgol yn gwrando ar farnau rhai eraill yn ofalus, yn cyflwyno’u syniadau ac yn helpu dylanwadu ar welliannau yn yr ysgol. Er enghraifft, fe wnaeth cyngor yr ysgol hŷn ddylanwadu ar newid i’r cwricwlwm i gyflwyno mis hanes du ac i gryfhau ymwybyddiaeth disgyblion o degwch, cydraddoldeb a goddefgarwch.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Da**

Yn adran y babanod a’r adran iau, ceir ffocws cryf ar ddatblygu medrau craidd Saesneg a mathemategol disgyblion. Mae hyn yn golygu bod disgyblion yn adeiladu eu gwybodaeth yn y pynciau hyn yn gynyddol a systematig. Yn yr ysgol hŷn, mae’r ddarpariaeth yn adeiladau’n dda ar y dechrau buddiol hwn. Mae disgyblion yr ysgol hŷn yn elwa o ystod eang o ddewisiadau unigoledig ar gyfer eu hopsiynau TGAU a Safon Uwch, gan gynnwys seryddiaeth, Lladin ac athroniaeth. Mae hyn yn gryfder yn narpariaeth yr ysgol.

Mae’r ysgol yn darparu cwricwlwm sy’n eang a chytbwys sydd yn bodloni Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003.

Mae’r ysgol yn gweithredu cynlluniau gwaith priodol i ddatblygu gwybodaeth a medrau penodol i bwnc disgyblion yn effeithiol. Mae amrywiaeth fuddiol o deithiau ac ymwelwyr â’r ysgol yn gwella dysgu disgyblion ac yn cefnogi’r cynlluniau hyn yn dda. Er enghraifft, mae disgyblion yn y dosbarth derbyn yn mynychu gweithdy deinosoriaid yn Amgueddfa Genedlaethol Cymru, mae disgyblion Blwyddyn 6 yn mesur cyflymder a dyfnder Afon Llanilltud Gŵyr fel rhan o waith maes daearyddiaeth, ac mae’r adran hanes yn mynd â disgyblion hŷn i Bletchley Park i archwilio torri codau a datrys problemau.

Mae’r ysgol yn darparu ystod eang o gyfleoedd cyd-gwricwlaidd sydd wedi’u cynllunio’n dda. Caiff disgyblion gyfleoedd o ansawdd uchel i ddatblygu’u medrau cerddorol a chreadigol trwy gorau, bandiau a cherddorfeydd yr ysgol. Er enghraifft, mae disgyblion yn canu yng nghôr Eglwys Gadeiriol Fetropolitan Dewi Sant Caerdydd ac mae’r gerddorfa yn perfformio mewn digwyddiadau o fri, gan gynnwys perfformiad ar gyfer Ei Uchelder Brenhinol Tywysog Cymru. Mae llawer o

ddisgyblion yn elwa o ystod eang o weithgareddau cyd-gwricwlaidd eraill, fel datblygu'u medrau chwarae gwyddbwyll a chyfranogi mewn clybiau chwaraeon. Mae'r gweithgareddau hyn yn cefnogi datblygiad medrau creadigol a chorfforol disgyblion yn dda.

Mae'r ddarpariaeth i ddatblygu medrau cymhwyso llythrennedd a rhifedd disgyblion ar draws y cwricwlwm yn datblygu'n briodol. Mewn mwyafrif o bynciau, caiff disgyblion gyfleoedd i gymhwyso'u medrau ysgrifennu estynedig a darllen yn bwrpasol, er enghraifft mewn hanes, wrth ddatblygu dulliau o ymchwilio hanesyddol neu wrth esbonio'r ffactorau ffisegol sy'n dylanwadu ar ddigwyddiadau tectonig mewn daearyddiaeth. Mewn ychydig o feysydd, fel mewn gwersi gwyddoniaeth TGAU a Safon Uwch, caiff disgyblion lawer o gyfleoedd gwerthfawr i gymhwyso'u medrau rhifedd. At ei gilydd, fodd bynnag, nid yw disgyblion yn cael digon o gyfleoedd i gymhwyso'u medrau llythrennedd a rhifedd yn gyson ar draws y cwricwlwm yn unol â'u hoedran a'u gallu.

Yn gyffredinol, mae ansawdd yr addysgu yn dda. Mae bron pob un o'r staff yn adnabod eu disgyblion yn dda ac yn datblygu perthnasoedd gweithio cryf. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn darparu esboniadau ac arweiniad llafar ac ysgrifenedig clir i ddisgyblion. Mae hyn yn golygu bod disgyblion yn deall sut i fynd i'r afael â thasgau a beth mae athrawon yn disgwyl iddynt ei gyflawni. Ar draws yr ysgol, mae athrawon yn fodelau iaith effeithiol ac yn helpu disgyblion i ddatblygu'u geirfa dechnegol a phenodol i bwnc yn dda iawn. Mae gan y rhan fwyaf o athrawon arferion sydd wedi'u hen sefydlu yn yr ystafell ddosbarth, ac mae disgyblion yn ymateb yn addas iddynt.

Mae llawer o athrawon yn arddangos gwybodaeth bynciol helaeth, yn enwedig pan fyddant yn addysgu dosbarthiadau TGAU a Safon Uwch. Mae llawer o athrawon yn defnyddio technegau holi yn dda, i annog disgyblion i gofio dysgu blaenorol, i feddwl am yr hyn y maent wedi'i glywed neu ddarllen, neu i ehangu'u dealltwriaeth. Mae disgwyliadau uchel gan lawer o athrawon o safonau disgyblion. Fodd bynnag, nid ydynt bob amser yn addasu'r addysgu yn ddigon da i fodloni anghenion disgyblion unigol, yn enwedig y rhai mwy abl. Ar brydiau, mae ychydig o athrawon yn siarad am gyfnodau rhy hir, ac nid ydynt yn cynnig digon o her neu gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu'u hannibyniaeth. O ganlyniad, nid yw disgyblion bob amser yn gwneud y cynnydd y gallent ei wneud.

Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o athrawon yn rhoi adborth llafar defnyddiol i ddisgyblion yn ystod gwersi. Mae hyn yn helpu disgyblion i fynd i'r afael ag unrhyw gamgymeriadau neu gamsyniadau mewn modd amserol. Mae lleiafrif o athrawon yn darparu adborth ysgrifenedig gwerthfawr i ddisgyblion am y cryfderau a'r meysydd i'w gwella yn eu gwaith. Mae mwyafrif o athrawon yn darparu arweiniad defnyddiol i ddisgyblion ar sut beth yw darn o waith o ansawdd da, a beth mae angen i'r disgyblion ei wneud er mwyn cyflawni'r safon hon. Er bod yna bocedi o arfer eithriadol o dda, at ei gilydd, mae ansawdd adborth ysgrifenedig a modelu gwaith o ansawdd uchel yn rhy amrywiol.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Rhagorol**

Mae darpariaeth yr ysgol ar gyfer gofal, cymorth ac arweiniad o ansawdd uchel. Mae llawer o staff yn darparu cymorth ychwanegol gwerthfawr i ddisgyblion y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth i arwain ac atgyfnerthu'u dysgu. Mae'r lefel hon o gymorth yn cyfrannu'n eithriadol at safonau uchel disgyblion, eu lles a'u hagweddau at ddysgu.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn eang. Mae ethos a gwerthoedd addysg Gatholig yr ysgol yn sail i bob agwedd ar fywyd yr ysgol, o weithgareddau dyddiol fel gwasanaethau boreol i gyswllt yr ysgol ag Eglwys Gadeiriol Fetropolitan Dewi Sant Caerdydd. Mae nifer eithriadol o uchel o ddisgyblion yn cyfranogi yng nghôr a cherddorfa Eglwys Gadeiriol yr ysgol. Fel rhan o'r cwricwlwm, mae disgyblion iau yn ymweld ag eglwysi lleol hefyd, tra bod disgyblion yn y chweched dosbarth yn astudio cwestiynau cymhleth bywyd mewn athroniaeth. Yn gyffredinol, mae'r lefel hon o ddarpariaeth yn gwneud cyfraniad hynod werthfawr at ddealltwriaeth disgyblion o'r angen am dosturi, goddefgarwch, parch a chyfrifoldeb.

Mae'r ysgol wedi datblygu system ysgol gyfan gynhwysfawr i olrhain gwybodaeth asesu. Ar draws yr ysgol, cynhelir asesiadau disgyblion yn rheolaidd, a chofnodir deilliannau yn ganolog. Mae athrawon dosbarth, arweinwyr canol ac uwch arweinwyr yn monitro cynnydd disgyblion yn drylwyr, ac maent yn cymryd camau di-oed pan fydd disgyblion wedi gwneud cynnydd arbennig o gyflym neu arafach na'r disgwyl. Er enghraifft, mae athrawon yn anfon cardiau llongyfarch i ddathlu cynnydd cyflym disgyblion, neu'n trefnu ymyrraeth addas i gefnogi dysgu disgyblion mewn agwedd benodol.

Ar draws yr ysgol, mae'r ddarpariaeth o ansawdd uchel i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, gan gynnwys disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol, yn galluogi'r rhan fwyaf o'r disgyblion hyn i gyflawni deilliannau uchel. Mae staff yn defnyddio gwybodaeth asesu yn addas, ynghyd ag adborth gwerthfawr gan ddisgyblion, staff, a rhieni a gofalwyr, i nodi'r rhwystrau penodol sy'n atal disgyblion rhag gwneud cynnydd. Defnyddir y wybodaeth hon yn briodol i gynllunio a darparu ystod o strategaethau cymorth effeithiol, fel cymorth tymor byr yn y dosbarth neu, lle bo'n briodol, help gan asiantaethau allanol.

Mae'r ysgol yn cynnig darpariaeth fuddiol i helpu disgyblion fabwysiadu ffyrdd iach o fyw ac mae'n cynnwys, er enghraifft, disgyblion yn yr ysgol fabanod yn bwyta byrbrydau ffrwythau yn unig adeg egwyl y bore. Mae'r ystod o opsiynau bwyta'n iach sydd wedi'u hehangu'n ddiweddar yn ffreutur yr ysgol yn hyrwyddo dealltwriaeth disgyblion o ddeiet iach yn arbennig o dda. Mae'r ysgol yn darparu ystod eang o weithgareddau chwaraeon cyd-gwricwlaidd fel pêl-fasged, hoci a thennis bwrdd, gyda chyfraddau cyfranogi uchel, sy'n helpu disgyblion i gyflawni lefelau ffitrwydd uwch.

Mae rhaglen addysg bersonol, cymdeithasol, iechyd a dinasyddiaeth yr ysgol yn cefnogi datblygiad medrau cymdeithasol ac emosiynol disgyblion yn dda o oedran cynnar. Er enghraifft, mae'r rhaglen yn cynnwys ymweliadau rheolaidd gan swyddog cymorth cymunedol yr heddlu ar gyfer yr ysgol i helpu disgyblion i ddatblygu agweddau cadarnhaol at gadw'n ddiogel. Hefyd, mae disgyblion ym Mlwyddyn 11 ac yn y chweched dosbarth yn elwa o glywed siaradwyr gwadd yn canolbwyntio ar feysydd fel paratoi at annibyniaeth a'r angen am feddyliau iach.

Ar draws yr ysgol, caiff disgyblion gyfleoedd gwerthfawr i'w paratoi i ddod yn ddinasyddion gweithgar, er enghraifft ar y cynghorau ysgol neu fel capteiniaid tŷ. Yn y rolau hyn, mae disgyblion yn ymgymryd â chyfrifoldeb dros wneud penderfyniadau a dylanwadu ar waith yr ysgol yn briodol. Mae hyn yn cynnwys cyngor yr ysgol iau yn hyrwyddo gardd ddysgu fel lle i ddarllen yn dawel a myfyrio.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Mae gweledigaeth strategol glir gan y pennaeth newydd y mae wedi'i rhannu'n llwyddiannus gyda staff, rhieni a disgyblion. Mae wedi ailstrwythuro'r tîm arwain er mwyn adlewyrchu anghenion yr ysgol, ac i adeiladu capasiti arwain o fewn yr ysgol.

Mae uwch arweinwyr yn nodi cryfderau'r ysgol a meysydd i'w datblygu yn gywir yn yr adroddiad hunanarfarnu ysgol gyfan. Mae arweinwyr canol yn dechrau cynnwys ystod addas o dystiolaeth uniongyrchol yn eu hunanarfarniadau adrannol. Fodd bynnag, nid yw hyn yn gyson ar draws pob adran. Mae cynllun gwella'r ysgol, sy'n uchelgeisiol iawn, yn ddogfen ddefnyddiol sy'n darparu sylfaen gadarn ar gyfer gwella ac yn nodi blaenoriaethau allweddol a chamau gweithredu mesuradwy. Mae uwch arweinwyr wedi gwneud cynnydd cyflym yn cyflawni llawer o gamau gweithredu penodol y cynllun, er enghraifft cyflwyno system gwybodaeth reoli newydd. O ganlyniad, mae staff yn rhannu data ynglŷn â chynnydd disgyblion yn effeithlon. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i weld effaith lawn cylch cryfach yr ysgol ar gyfer hunanarfarnu a chynllunio gwelliant ar agweddau ar ddarpariaeth yr ysgol, er enghraifft cysondeb yn ansawdd yr addysgu.

Mae'r disgrifiadau swydd sy'n amlinellu'r rolau arwain newydd yn datblygu. Fodd bynnag, nid oes disgrifiadau swydd clir gan bob un o'r staff sy'n diffinio'u cyfrifoldebau penodol, er enghraifft yn ymwneud ag ansawdd addysgu a dysgu. Mae uwch arweinwyr wedi dechrau monitro ansawdd addysgu a dysgu yn addas, er enghraifft drwy arsylwadau gwersi a chraffu ar lyfrau. Fodd bynnag, mae gormod o amrywio o ran amlder ac ansawdd monitro gan arweinwyr canol.

Mae uwch arweinwyr wedi diwygio'r system werthuso yn briodol. Lle ceir unrhyw feysydd o danberfformio, mae'r ysgol yn cymryd camau cadarn a phriodol i fynd i'r afael â'r pryderon hyn.

Mae'r strwythur uwch arweinyddiaeth newydd wedi darparu cyfleoedd datblygiad proffesiynol gwerthfawr i staff presennol, ac mae hyn wedi rhoi momentwm i'r broses gwella'r ysgol. Mae uwch arweinwyr yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd gyda phenaethiaid adran, ac mae'r rhain wedi gwella cyfathrebu a rhoi gwedd gliriach ar ddisgwyliadau. Hefyd, maent yn darparu hyfforddiant rheolaidd ar ystod addas o faterion perthnasol. Er enghraifft, mae sesiynau wedi canolbwyntio ar wella hunanarfarnu a rhannu arfer orau mewn marcio ac adborth. Mae'r gweithgareddau hyn wedi cynyddu cyfleoedd i staff wneud cyfraniad effeithiol at wella'r ysgol gyfan. Fodd bynnag, er bod staff yn ymgymryd ag ystod o weithgareddau dysgu proffesiynol, nid yw hyn wedi'i gysylltu'n agos bob tro â'r broses werthuso.

Mae arweinwyr yn trefnu staff yn effeithiol i fodloni anghenion disgyblion. Mae'r ysgol yn defnyddio'i hadnoddau yn dda, a gwna ddefnydd da o gyfleusterau allanol, er enghraifft ar gyfer gwersi addysg gorfforol. Fodd bynnag, cyfyngedig yw'r ddarpariaeth gyffredinol ar gyfer mannau chwarae.

Mae gan yr ymddiriedolwyr ystod eang o fedrau a phrofiad proffesiynol perthnasol. Defnyddiant y rhain yn effeithiol i gyflawni'u cyfrifoldebau. Maent yn weithgar o ran

pennu cyfeiriad strategol yr ysgol, ac yn gefnogol i newidiadau diweddar i ddarpariaeth yr ysgol. Mae'r ymddiriedolwyr yn gwneud penderfyniadau gwario sy'n cysylltu'n agos â chynlluniau gwella tymor byr a thymor hir. Maent yn adolygu cost-effeithiolrwydd prosiectau presennol yn addas, ac mae hyn yn arwain at newidiadau buddiol, er enghraifft gwneud gwelliannau i'r ddarpariaeth arlwyo.

Mae'r ysgol yn bodloni pob un o ofynion Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

O dan Reoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad i holl rieni'r ysgol. Pan fydd disgybl yn cael ei leoli gan awdurdod lleol, dylai'r ysgol anfon copi o'r adroddiad i bob awdurdod perthnasol.

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa farnau pedwar pwynt, sef:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwella** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwella ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad yn unol ag adran 163 Deddf Addysg 2002. Prif ddiben arolygu o dan yr adran hon yw adrodd ar gydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol 2003. Mewn ysgolion sy'n darparu addysg feithrin nas cynhelir, mae'r adroddiad hwn hefyd yn bodloni gofynion Atodlen 26 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2018: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 11/04/2018